Cyngor Sir
CEREDIGION
County Council

Meinir Ebbsworth
Swyddog Arweiniol Corfforaethol : Ysgolion
Corporate Lead Officer : Schools

Canolfan Rheidol, Rhodfa Padarn,
Llanbadarn Fawr, Aberystwyth. SY23 3UE
www.ceredigion.gov.uk

Dyddiad Date	14.12.2021
Gofynnwch am Please ask for	Meinir Ebbsworth
Llinell uniongyrchol Direct line	01545 570881
Fy nghyf My ref	ME/NW
Ebost Email	clic@ceredigion.gov.uk

Annwyl Riant / Gofalwr,

Ail-gyflwyno Dysgu o Bell o ddydd Llun 20fed Rhagfyr tan ddiwedd tymor y Nadolig

Diolch ichi am eich cefnogaeth i addysg eich plentyn yn ystod y tymor heriol hwn. Rydym wedi penderfynu fel Cyngor y bydd ysgolion y sir yn trosi i ddysgu o bell o ddydd Llun 20fed Rhagfyr hyd at ddiwedd tymor.

Sail y penderfyniad yw'r twf cyflym a sydyn a ddisgwylir yn fuan o'r amrywiolyn Omicron, ynghyd â heriau dyddiol mewn nifer o ysgolion oherwydd absenoldebau staff. Y nod yw lleihau cysylltiadau er mwyn ceisio atal lledu'r haint yn yr wythnosau allweddol sydd i ddod. Mae cyngor meddygol clir bod trydydd brechlyn yn ffordd effeithiol o reoli'r amrywiolyn newydd, ac mae'r Bwrdd Iechyd Lleol yn annog pawb sy'n dymuno'r brechlyn hwnnw i wneud hynny mor fuan ag y maent yn cael eu gwahodd i wneud.

Bydd cynllunio nawr ar gyfer ail-gyflwyno dysgu o bell yn gosod gwell trefn a strwythur i ddarpariaeth ysgolion ar ddiwedd tymor. Darperir offer TGCh i deuluoedd os oes ei angen arnoch, a dylid gwneud y cais am hynny drwy'r ysgol.

Bydd unrhyw ddisgybl sydd yn mynychu uned adnoddau arbenigol yn medru parhau i wneud hynny tan ddiwedd tymor.

Bydd taliadau/talebau ar gyfer unrhyw ddisgybl sy'n hawlio prydau ysgol am ddim yn cael eu haddasu i ystyried y diwrnodau dysgu o bell.

Gall rhieni sy'n weithwyr allweddol gael mynediad at hwb gofal plant os oes angen yn ystod y cyfnod hwn, a hynny os nad oes trefniadau eraill ar gael iddynt. Bydd angen ichi drefnu hynny drwy drafod gyda Phennaeth eich hysgol. Ni ddarperir cinio yn yr hybiau gofal, ac felly bydd angen trefnu tocyn bwyd am y diwrnodau hyn. Darperir trafnidiaeth ysgol fel ag yr arfer.

Rydym yn croesawu gohebiaeth yn Gymraeg a Saesneg. Cewch ateb Cymraeg i bob gohebiaeth Gymraeg ac ateb Saesneg i bob gohebiaeth Saesneg. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.
We welcome correspondence in Welsh and English. Correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and correspondence in English will be answered in English. Corresponding in Welsh will not involve any delay.

Prif Weithredwr / Chief Executive : Eifion Evans
Cyfarwyddwr Corfforaethol / Corporate Director : Barry Rees

Bydd eich hysgol yn cyfathrebu'n uniongyrchol gyda chi fory o ran trefniadau lleol.

Rydym yn gwerthfawrogi'ch cyd-weithrediad yn fawr iawn a phob dymuniad da ichi dros gyfnod y Nadolig.

Yn gywir,

Meinir Ebbsworth
Prif Swyddog Addysg Ceredigion